Adroddiad Diogelu Blynyddol 2023/24

# MEITHRIN DIWYLLIANT MWY DIOGEL


VERSUS ARTHRITIS

# CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL 2023-2024

### ‘Meithrin Diwylliant Mwy Diogel’

- Gwell dealltwriaeth gan staff a gwirfoddolwyr o ddiogelu a’u cyfrifoldebau.
- Prosesau clir i staff a gwirfoddolwyr gael mynediad at gymorth a chyngor diogelu.
- Mwy o hyder yn y polisi a’r weithdrefn diogelu ddiwygiedig.
- Rheolwr Diogelu newydd eu penodi sydd wedi ymgysylltu ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, timau a swyddfeydd yn y pedair gwlad.
- Hyfforddiant newydd ei gynllunio sy’n gwbl berthnasol i’n gwaith yn Versus Arthritis.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o bryderon diogelu a phryderon lles a sut i ymateb yn briodol yn y naill achos neu’r llall.

### Siart Llif Diogelu






# TREFNIADAU LLYWODRAETHU DIOGELU

**Yn 2023 fe wnaethom sefydlu’r Grŵp Goruchwylio Diogelu (SOG) sy’n cael ei gadeirio gan ein Hymddiriedolwr Diogelu ac mae ein haelodaeth yn cynnwys ein Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant a Phennaeth Cyfreithiol a Llywodraethu. Mae’r grŵp yn craffu ar gynnydd y gweithgarwch diogelu ac yn darparu adroddiad i’n Pwyllgor Risg a Chydymffurfiaeth.**

### Polisi a Gweithdrefn Diogelu

Treuliodd ein Rheolwr Diogelu amser gyda chydweithwyr yn ein gwasanaethau ar draws y pedair gwlad i gasglu adborth ar effeithiolrwydd ein polisi a’n gweithdrefn diogelu ac o ganlyniad, cafodd y ddau eu hadolygu i fod yn fwy hygyrch a symlach. Mae’r weithdrefn bellach yn cynnwys siart llif ar gyfer unrhyw bryderon cychwynnol a all godi gyda ffocws ar ‘Gwneud Iddo Ddigwydd’ – gan sicrhau ein bod yn glir ynghylch ein rôl a’n cyfrifoldebau sefydliadol, gan gynnwys recriwtio mwy diogel, hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr.



### Goruchwyliaeth Effeithiol

Fel rhan o’r gwaith o ddiweddaru’r Polisi a’r Weithdrefn Diogelu, canfuwyd bwlch mewn goruchwyliaeth cymheiriaid staff ac felly crëwyd Canllawiau Goruchwylio Effeithiol i gefnogi sgyrsiau a chyfleoedd ar gyfer unrhyw bryderon posibl ac anghenion hyfforddi.

## Hyrwyddwyr Diogelu

Ym mis Awst 2023, fe wnaethom greu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Diogelu i hyrwyddo arfer diogelu cadarnhaol ar draws yr elusen. Mae'r dull hwn wedi annog mwy o staff i fod eisiau cymryd rhan a chefnogi diwylliant mwy diogel ac ochr yn ochr â gweithredu'r hyfforddiant diogelu newydd, rydym wedi cynyddu'r grŵp blaenorol o Bersonau Diogelu Dynodedig o chwech i bedwar ar ddeg o hyrwyddwyr diogelu. Mae hyn yn nifer sylweddol o Hyrwyddwyr Diogelu ar gyfer maint a graddfa'r elusen, sy'n cwmpasu'r pedair Gwlad, sef gwasanaethau oedolion, pobl ifanc a theuluoedd, gwirfoddoli, Pobl a Diwylliant, Incwm ac Ymgysylltu ac Ymchwil a Gwybodaeth Iechyd.

## Sesiynau Cymorth Cymheiriaid Diogelu

Mae cymorth cymheiriaid o fewn arferion diogelu yn hanfodol ar gyfer meithrin diwylliant mwy diogel yn Versus Arthritis ac yn 2023 fe wnaethom hwyluso'r sesiynau canlynol, i annog trafodaeth a myfyrio:

- Beth yw Diogelu?
- Caniatâd
- Goruchwyliaeth Effeithiol

Rydym yn ailffocysu'r sesiynau ar gyfer 2024/25, i adlewyrchu'r ymagwedd at ddiwylliant mwy diogel a chadarnhaol sy'n cysylltu diogelu a llesiant. Byddwn hefyd yn alinio'r sesiynau gyda'n Sesiwn Cefnogi Cymheiriaid Rheolwr Pobl i barhau i fyfyrio a dysgu.



## Taflen Wybodaeth Diogelu i Ymddiriedolwyr

Mae gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr gyfrifoldebau diogelu penodol yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr fynychu ein hyfforddiant diogelu i sicrhau eu bod yn gwybod sut i adrodd am faterion diogelu i'r asiantaethau perthnasol (fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol neu Estyn/Ofsted) ac ar gyfer cywiro materion os aiff pethau o chwith. Rydym wedi creu Canllawiau Gwybodaeth Diogelu i Ymddiriedolwyr fel y gall ymddiriedolwyr hyrwyddo diwylliant agored a chadarnhaol a sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn teimlo y gallant adrodd am bryderon, yn hyderus y cânt eu clywed ac yr ymatebir iddynt.

## Adnoddau Diogelu


Mae gennym ystod eang o adnoddau diogelu ar gyfer ein staff a gwirfoddolwyr ar gael ar ein 'hyb diogelu' hunanwasanaeth ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ein polisi diogelu, ein gweithdrefnau, adroddiadau sefydliadol, gwybodaeth cyfeirio a gwybodaeth gyswllt. Rydym hefyd wedi diweddaru'r **Hyb Lles** ar gyfer staff, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi ein pobl ac i barhau i hyrwyddo lles fel rhan annatod o feithrin diwylliant mwy diogel.



## Recriwtio Mwy Diogel

Mae Polisi a Gweithdrefn Recriwtio Mwy Diogel wedi'u datblygu ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, gan ffurfioli a sefydlu prosesau clir ar gyfer recriwtio, rhagfyrddio a chofrestru staff a gwirfoddolwyr. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys y lefel briodol y cytunwyd arni o wiriad cofnodion troseddol a nodwyd ar gyfer pob rôl ac mae'r holl wiriadau staff cyfredol wedi'u cwblhau. Ymgymerwyd â glanhau data ar raddfa lawn ar gyfer ein gwirfoddolwyr i nodi pwy sy'n wirfoddolwr gweithgar, yn ogystal â nodi pa rolau sydd angen gwiriad cofnodion troseddol, mae'r gwaith hwn yn parhau gyda'r Tîm Gwirfoddoli.





## Hyfforddiant Diogelu

Cyflwynwyd yr hyfforddiant diogelu wedi'i ddiweddaru rhwng Ionawr ac Ebrill 2024 gyda ffocws ar sicrhau bod yr holl staff a'r gwirfoddolwyr perthnasol yn deall diffiniadau allweddol o ddiogelu, yn gallu adnabod arwyddion o gam-drin a gwybod sut i ymateb, yn ymwybodol o'r cymorth diogelu sydd ar gael o fewn Versus Arthritis a sut i gael mynediad ato. Mabwysiadwyd dull hybrid o gyflwyno sesiynau, gyda'r Rheolwr Diogelu yn hwyluso 41 o sesiynau yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau, wyneb yn wyneb ar draws y pedair gwlad a thrwy gyflwyno ar-lein wyneb yn wyneb. Credwn fod yr hyblygrwydd hwn wedi bod yn allweddol i lwyddiant y broses o gyflwyno'r hyfforddiant. Fe wnaethom gadw nifer y mynychwyr ym mhob sesiwn yn gyfyngedig i sicrhau y gallem fonitro ymgysylltiad yn y sesiwn a dealltwriaeth o'i chynnwys a chawsom adborth adeiladol defnyddiol ynghylch cyflwyno'r sesiwn, yn ogystal ag adborth cadarnhaol i gefnogi'r canlyniad dymunol i wella diwylliant mwy diogel yn gyffredinol o fewn Versus Arthritis. Isod mae cipolwg o'r hyfforddiant a gyflwynwyd ar gyfer Ch4 2023/2024.

Cwblhaodd

**41** o sesiynau wedi'u hwyluso

Cwblhaodd **288** o staff yr hyfforddiant

Cwblhaodd **80** o wirfoddolwyr hyfforddiant

Cwblhaodd **131** o bobl arolwg adborth

## Adborth o'r Arolwg:

Dywedodd **100%** eu bod yn deall diffiniadau allweddol

Dywedodd **100%** eu bod yn deall sut i gael mynediad at gymorth ar gyfer unrhyw bryderon o fewn Versus Arthritis

Dywedodd **100%** eu bod yn gwybod sut i adrodd am ddiogelu o fewn Versus Arthritis

## Roedd adborth yn cynnwys:

"Roedd yr un hon yn hawdd iawn i'w deall ac yn ddefnyddiol iawn yn fy maes gwaith. Doedd 'na ddim gormod o wybodaeth felly byddaf yn gallu cofio'r wybodaeth yn well. Roedd yr un blaenorol yn rhy hir ac amhersonol. Diolch."

"Roedd hon yn sesiwn llawer gwell a chliriach na'r hyfforddiant diogelu blaenorol. Roeddwn i'n hoff iawn o'r modd y defnyddiwyd senarios ac enghreifftiau."

"Roeddwn i'n meddwl ei fod wedi'i gyflwyno'n dda iawn, a'i fod yn hygyrch i bob lefel o wybodaeth/profiad blaenorol. Fe'i cyflwynwyd mewn modd cynnes a chroesawgar, heb fod yn rhy ffurfiol ond roedd digon o wybodaeth yn dal i gael ei darparu."

"Mae hyn yn llawer gwell na'r hyfforddiant blaenorol. Rwy'n hoff iawn o'r siart llif, a chredaf y dylid ei wneud yn boster a'i osod ym mhob un o'r swyddfeydd."

"Rwy'n credu bod y safbwynt diwygiedig o ddiogelu yn symlach nag o'r blaen. Mwynheais y sesiwn, roedd yn hamddenol ond yn addysgiadol."



# PLANS FOR 2024/25

Bydd ein prif weithgarwch ar gyfer 2024/25 yn cynnwys gwelliant parhaus drwy adolygu, cynllunio, darparu a gwerthuso hyfforddiant diogelu a chyflwyno ein rhaglen dysgu a datblygu diogelu.

- Hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer staff newydd a chynllun hyfforddi'r hyfforddwr yn weithredol er mwyn alluogi Hyrwyddwyr Diogelu i gyflwyno'r hyfforddiant yn eu cyfarwyddiaethau i gefnogi gyda hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant atgoffa yn y dyfodol.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff y Llinell Gymorth, i sicrhau diogelwch seicolegol tîm y gwasanaeth.
- Hyrwyddwyr Diogelu i gwblhau lefelau Diogelu 1-3.
- Hyfforddiant Llinellau Cyffuriau.
- Hyfforddiant Demetia.
- Hyfforddiant Galar.
- Hyfforddiant Camddefnyddio Sylweddau – gan gynnwys gorddefnyddio cyffuriau lladd poen.
- Byddwn yn adolygu ein polisi a'n gweithdrefn diogelu mewn partneriaeth â'r Grŵp Goruchwylio Diogelu a chynllunio a chyflwyno gweithgareddau sy'n sicrhau bod proffil diogelu yn uchel ar draws Versus Arthritis.
- Adolygu Cofrestr Risg Diogelu Versus Arthritis yn rheolaidd, gan nodi risgiau a mesurau lliniaru newydd.
- Cynllunio a chyflwyno 'geirfa diogelu'.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau i'r Grŵp Goruchwylio Diogelu a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio, gan sicrhau bod gwybodaeth gywir a chymesur yn cael ei chynnwys.
- Rheoli rhwydwaith o hyrwyddwyr diogelu.
- Rheoli gweithrediadau Diogelu o ddydd i ddydd; cefnogi unigolion sydd â phryderon ac ymateb i unrhyw bryderon diogelu a godir.



I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn,
cysylltwch â: safeguarding@versusarthritis.org

0300 790 0400
/VersusArthritis
@VersusArthritis
@VersusArthritis

Versus Arthritis
Copeman House
St Mary's Gate
Chesterfield
S41 7TD

VERSUS ARTHRITIS

Versus Arthritis: Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr Rhif 207711, yr Alban Rhif SC041156.